# Offerynnau Statudol sydd ag Adroddiadau Clir
# 02 Mai 2023

## SL(6)347 – Cynllun Corff Llais y Dinesydd ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Trosglwyddo Staff, Eiddo, Hawliau ac Atebolrwyddau) (Cymru) 2023

### Gweithdrefn: Dim Gweithdrefn

Cynghorau Iechyd Cymuned ("CICau") oedd cyrff annibynnol a sefydlwyd i fonitro barn unigolion a'r gymuned am wasanaethau iechyd yng Nghymru o ran ansawdd, hygyrchedd, a phriodoldeb y gwasanaethau a ddarperir.

Fe'u diddymwyd ar 1 Ebrill 2023 drwy gychwyn adran 23(1) o Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Ansawdd ac Ymgysylltu) (Cymru) 2020 ("Deddf 2020").

Yn eu lle, sefydlwyd Corff Llais y Dinesydd ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol, Cymru ("y Corff") fel corff corfforaethol o dan adran 12(1) o Ddeddf 2020. Mae gwefan Llywodraeth Cymru yn nodi y bydd y Corff yn:

- gwrando ar farn y cyhoedd, ymhob rhan o Gymru, ynglŷn â gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol;
- cynorthwyo i sicrhau bod profiadau byw unigolion yn fodd o gynllunio a gwella gwasanaethau – gan ddylanwadu ar gynlluniau a pholisïau lleol, rhanbarthol a chenedlaethol; a
- chynorthwyo i ddatblygu gwell cysylltiadau rhwng gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol, unigolion a chymunedau – gan hyrwyddo llais y dinesydd sy'n gwbl gynrychioliadol.

Mae'r Cynllun Trosglwyddo hwn yn gwneud darpariaeth yn ymwneud â throsglwyddo staff, eiddo, hawliau a rhwymedigaethau rhwng y CICau a'r Corff.

**Rhiant-Ddeddf:** Deddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Ansawdd ac Ymgysylltu)(Cymru) 2020
**Fe'u gwnaed ar:** 30 Mawrth 2023
**Fe'u gosodwyd ar:** 31 Mawrth 2023
**Yn dod i rym ar:** 01 Ebrill 2023